# DAVIES, JONATHAN CEREDIG (1859 - 1932), teithiwr ac achydd

**Enw:** Jonathan Ceredig Davies
**Dyddiad geni:** 1859
**Dyddiad marw:** 1932
**Rhiant:** J.C. Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** teithiwr ac achydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd; Teithio
**Awdur:** William Williams

Ganwyd 22 Mai 1859, yn Llangunllo, Sir Aberteifi, mab J. C. Davies. Yn 1875, yn 16 oed, ymfudodd i'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Dychwelodd i Gymru yn 1891, ac yn 1892 golygodd *Yr Athrofa* - yn yn hwnnw yr ymddangosodd ei ' Anturiaethau yn Nhir y Cewri ' a gyhoeddwyd wedyn yn Saesneg (Llanbedr Pont Steffan, 1892). Yn 1898 ymwelodd ag Awstralia Orllewinol ac aros yno bedair blynedd. Astudiodd arferion brodorion y ddwy wlad a gwnaeth lawer i hyrwyddo mudiadau crefydd a diwylliant ymhlith y Cymry a'r Saeson a ymsefydlasai yno. Ag eithrio taith i Awstralia Orllewinol yn 1907, ac ymweliad â Ffrainc ac Ysbaen yn 1924, treuilodd weddill ei oes yng Nghymru, gan ymroi i astudio ei hanes, ei llên gwerin, a'i hachyddiaeth. Bu farw yn Llanddewi-brefi, 29 Mawrth 1932. Y rhain yw ei brif weithiau: *Darlith ar Batagonia* (Treherbert, 1891); *Patagonia: a description of the country* (Treorky, 1892); *Adventures in the land of giants: a Patagonian tale* (Lampeter, 1892); *Western Australia: its history and progress* (Nantymoel, 1902); *Awstralia Orllewinol* (Treorchy, 1903); *Folk-lore of West and Mid-Wales* (Aberystwyth, 1911); a dau lyfr a argraffwyd yn breifat, *Welsh and Oriental Languages* (Llanddewi-brefi, 1927); a *Life, Travels, and Reminiscences of Jonathan Ceredig Davies* (Llanddewi-brefi, 1927). (Alibrintiwyd y cyntaf o'r ddau yn *Life, travels and reminiscences*).

Y mae hanes *Life, travels...* yn nodedig. Ni ellir ei gymharu â gwaith crefftwr medrus a phrofiadol, ond byddai'n anodd cael enghraifft ragorach o ddyfalbarhad di-ildio. Ofnid na allai orffen y gwaith oherwydd ei henaint a bod ei iechyd a'i olwg yn pallu ac yntau'n ofni tlodi hefyd. Ychydig o lythrennau argraffu a gwasgfwrdd argraffwasg oedd ganddo, ond trwy osod i fyny ac argraffu tudalen ar y tro daliodd ati nes gorffen y llyfr - cyfrol bedwarplyg o 438 o dudalennau 'a ysgrifenwyd, a drefnwyd, a argraffwyd ac a gyhoeddwyd ganddo ef ei hunan.'

## Awdur

**William Williams**, (1885 - 1950)

## Ffynonellau


*Life, Travels, and Reminiscences of Jonathan Ceredig Davies* (Llandewi-brefi 1927), 1927

*West Wales Historical Records* (1910–29)

*Adroddiad Blynyddol Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

gwybodaeth gan ffrindiau J.C.D.

gwybodaeth gan y diweddar W. J. Gruffydd


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Jonathan Ceredig Davies

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 38955673

Wikidata: Q18535570


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu